O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 337 (Cy. 39)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penrhyndeudraeth, Gwynedd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*15 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*25 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun—Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penrhyndeudraeth, Gwynedd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 25 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A487 ym Mhenrhyndeudraeth yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Griffin hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Minffordd.